



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 1704 (Cy.166)

2006 No. 1704 (W.166)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Eitemau Ceramig
mewn Cyffyrddiad â Bwyd
(Cymru) 2006**

**The Ceramic Articles in Contact
with Food (Wales) Regulations
2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i eitemau ceramig y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwyd. Maent yn gosod terfynau ar faint o blwm a chadmiwm a all gael eu trosglwyddo o eitemau o'r fath, ynghyd â gofynion ar gyfer cynnal profion ar drosglwyddo (mudo) o'r fath ac yn ei gwneud yn ofynnol bod tystysgrifau cydymffurfiaeth gydag eitemau ceramig yn cyfnodau marchnata.

1. These Regulations apply to ceramic articles which are intended to come into contact with food. They set limits on the amount of lead and cadmium which may be transferred from such articles together with requirements for testing such transfer (migration) and require ceramic articles to be accompanied at the marketing stages by certificates of compliance.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 84/500/EEC ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau o ran eitemau ceramig y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwydydd (O.J. L.277 o 20.10.84 t.12) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2005/31/EC o ran datganiad o gydymffurfio a meini prawf perfformiad o'r dull dadansoddi ar gyfer eitemau ceramig y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwydydd (O.J. L.110 o 30.4.05 t.36). Gweithredwyd y Gyfarwyddeb flaenorol gan Reoliadau Nwyddau Ceramig (Diogelwch) 1988 (O.S. 1988/1647) y mae'r Rheoliadau Eitemau Ceramig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Lloegr) 2006 (O.S. 2006/ 1179) yn eu dirymu.

2. These Regulations implement Council Directive 84/500/EEC on the approximation of the laws of the Member States relating to ceramic articles intended to come into contact with foodstuffs (O.J. L.277 of 20.10.84 p.12) as amended by Commission Directive 2005/31/EC regarding a declaration of compliance and performance criteria of the analytical method for ceramic articles intended to come into contact with foodstuffs (O.J. L.110 of 30.4.05 p.36). The former Directive was previously implemented by the Ceramic Ware (Safety) Regulations 1988 (S.I. 1988/1647) which the Ceramic Articles in Contact with Food (England) Regulations 2006 (S.I. 2006/1179) revoke.

3. Yr oedd Rheoliadau 1988 yn gymwys i'r Deyrnas Unedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru. Gwneir Rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

3. The 1988 Regulations applied to the United Kingdom. These Regulations apply to Wales. Corresponding Regulations are being made for England, Northern Ireland and Scotland.

4. Mae rheoliad 2 yn diffinio "eitem geramig". Mae rheoliad 3 ac Atodlen 1 yn gosod terfynau ar y symiau o blwm a chadmiwm y caniateir eu trosglwyddo gan eitem geramig, ac mae Atodlen 2 yn gosod sut y mae'n rhaid cynnal profion ar eitem. Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad o gydymffurfio

4. Regulation 2 defines "ceramic article". Regulation 3 and Schedule 1 limit the quantities of lead and cadmium which may be transferred by a ceramic article, Schedule 2 sets out how an article is to be tested. Regulation 4 requires a written declaration of compliance to accompany a ceramic article or articles

ysgrifenedig fynd gydag eitem geramig nad yw hyd yn hyn wedi dod i gyffyrddiad â bwyd ym mhob cyfnod marchnata hyd at y cyfnod manwerthu. Gosodir manylion y datganiad yn Atodlen 3. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchydd neu fewnforiwr i'r Gymuned gadw dogfennau priodol sy'n dangos bod eitem neu eitemau yn cydymffurfio â gofynion Atodlen 1.

5. Mae rheoliad 5 yn darparu mai awdurdodau bwyd ac awdurdodau iechyd porthladd fydd yn gorfodi'r Rheoliadau yn eu hardaloedd neu ddsbarthau perthnasol. Mae rheoliad 6 yn gosod y cosbau am fethu â chydymffurfio â'r Rheoliadau a'r amddiffyniadau sydd ar gael. Mae rheoliad 7 yn gosod pa ddarpariaeth o Ddeddf Diogelwch Bwyd sydd yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau.

6. Mae arfarniad rheoliadol llawn wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn ac wedi'i roi yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â nodyn trosi sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn. Mae copïau ar gael hefyd oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd CF10 1EW.

not yet in contact with food at all marketing stages up to the retail stage. The details of the declaration are set out in Schedule 3. The Regulation also requires a manufacturer or importer into the Community to keep appropriate documentation to show that article or articles comply with the requirements of Schedule 1..

5. Regulation 5 provides that the Regulations are to be enforced by food authorities and port health authorities in their respective areas of districts. Regulation 6 sets out the penalties for failure to comply with the Regulations and the defences that are available. Regulation 7 sets out the provision of the Food Safety Act which are applied for the purposes of the Regulations.

6. A full regulatory appraisal has been prepared for these Regulations and has been placed in the Library of the National Assembly for Wales along with a copy of the transposition note relating to these Regulations. Copies are also available from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff CF10 1EW.

2006 Rhif 1704 (Cy.166)**2006 No. 1704 (W.166)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Rheoliadau Eitemau Ceramig
mewn Cyffyrddiad â Bwyd
(Cymru) 2006****The Ceramic Articles in Contact
with Food (Wales) Regulations
2006***Wedi'u gwneud* 27 Mehefin 2006*Made* 27 June 2006*Yn dod i rym* 30 Mehefin 2006*Coming into force* 30 June 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(2), 17(1), 26(1)(a), 26(2)(a) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1);

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 16(2), 17(1), 26(1)(a), 26(2)(a) and (3), and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1);

Yn unol ag adran 48(4A)(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 mae wedi ystyried cyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac wedi ymghynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 28 Ionawr 2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3).

In accordance with section 48(4A)(2) of the Food Safety Act it has had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency and consulted as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council of 28 January 2002 laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety (3).

Enwi, cychwyn, rhychwantu a dirymu**Title, Commencement, Extent and Revocation**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Eitemau Ceramig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) 2006, sy'n dod i rym ar 30 Mehefin 2006 ac eithrio rheoliad 3(3)(a) a (b) a 4 sy'n dod i rym ar 30 Mehefin 2007.

1.-(1) The title of these Regulations is the Ceramic Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2006, which come into force on 30 June 2006 except for regulation 3(3)(a) and (b) and 4 which come into force on 30 June 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply to Wales.

(3) Hepgorir is-baragraff (b) o Atodlen 3 (Diffiniad o gyfraith bwyd berthnasol) yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd 2006(4).

(3) In the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2006(4) sub-paragraph (b) of Schedule 3 (Definition of relevant food law) is omitted.

(1) 1990 p.16.

(2) Mewnosodwyd is-adran (4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28).

(3) O.J. Rhif L 31, 1/2/2002, t.1.

(4) O.S. 2006 Rhif 590(Cy.66).

(1) 1990 c.16.

(2) Subsection (4A) was inserted by para. 21 of Sch. 5 to the Food Standards Act 1999 (c.28).

(3) O.J. No L 31, 1/2/2002, p.1.

(4) S.I. 2006 No.590(W.66).

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw awdurdod a grybwyllir yn rheoliad 5;

ystyr "eitem geramig" ("*ceramic article*") yw eitem-

- (a) a weithgynhyrchwyd o gymysgfa o ddeunyddiau anorganig gyda chynnwys cleiog neu silicad uchel yn gyffredinol y cafodd symiau bach o ddeunyddiau organig efallai eu hychwanegu atynt. Caiff y cyfryw eitem ei siapio'n gyntaf ac mae'r siâp a geir drwy hyn yn cael ei osod yn barhaol drwy ei gwresogi. Gellid ei gwydro, ei henamlo a/neu ei haddurno;
- (b) y mae bwriad iddi, yn ei chyflwr gorffenedig, ddod i gyffyrddiad â bwydydd, neu sydd mewn cyffyrddiad â bwydydd, a bwriadwyd hi at y diben hwnnw;

ond nid yw'n cynnwys eitem a gyflenwir fel hynafolyn;

ystyr "y Gymuned" ("*the Community*") yw'r Aelod-wladwriaethau a Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein;

ystyr "mewnforio" ("*import*") yw rhyddhau rhywbeth yn y DU i gylchrediad rhydd yn y Gymuned;

ystyr "rhoi ar y farchnad" ("*place on the market*") yw dal eitemau ceramig ar gyfer eu gwerthu, gan gynnwys cynnig eu gwerthu neu unrhyw ffurf arall ar drosglwyddo p'un ai'n ddi-dâl ai peidio, a'r gwerthu, dosbarthu a ffurfiau eraill ar drosglwyddo eu hunain.

Terfynau ar drosglwyddo plwm a chadmiwm

3.-(1) Rhaid i symiau o blwm a chadmiwm a drosglwyddir o eitem geramig beidio â mynd dros y terfynau a osodir yn Atodlen 1.

(2) Penderfynir cydymffurfedd â pharagraff (1) drwy gynnal profion a dadansoddi yn unol ag Atodlen 2 oni ddangosir nad oedd y deunyddiau a ddefnyddiwyd i wneud yr eitemau ceramig yn cynnwys plwm neu gadmiwm.

- (3) Ni chaiff neb-
 - (a) gweithgynhyrchu
 - (b) mewnforio, neu
 - (c) rhoi ar y farchnad,

eitem geramig nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraff (1).

Interpretation

2. In these Regulations-

"ceramic article" ("*eitem geramig*") means an article-

- (a) manufactured from a mixture of inorganic materials with a generally high argillaceous or silicate content to which small quantities of organic materials may have been added. Such an article is first shaped and the shape thus obtained is permanently fixed by firing. It may be glazed, enamelled and/or decorated;
- (b) which, in its finished state, is intended to come into contact with foodstuffs, or which is in contact with foodstuffs, and is intended for that purpose;

but does not include an article which is supplied as an antique;

"the Community" ("*y Gymuned*") means the member States and Norway, Iceland and Liechtenstein;

"enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi*") means an authority mentioned in regulation 5;

"import" ("*mewnforio*") means the release into the UK for free circulation in the Community;

"place on the market" ("*rhoi ar y farchnad*") means the holding of ceramic articles for sale, including offering for sale or any other form of transfer, whether free of charge or not, and the sale, distribution and other forms of transfer themselves.

Limits on the transfer of lead and cadmium

3.-(1) The quantities of lead and cadmium transferred from a ceramic article must not exceed the limits laid down in Schedule 1.

(2) Compliance with paragraph (1) is to be determined by testing and analysis in accordance with Schedule 2 unless it is demonstrated that the materials used to make the ceramic articles did not contain lead or cadmium.

- (3) No person may-
 - (a) manufacture,
 - (b) import, or
 - (c) place on the market,

a ceramic article which does not comply with the requirements in paragraph (1).

Datganiad o Gydydffurfio

4.-(1) Rhaid i weithgynhyrhydd neu werthwr eitem geramig na ddaeth hyd yn hyn i gyffyrddiad â bwyd ddarparu datganiad ysgrifenedig yn unol ag Atodlen 2 i fynd gyda'r eitem yn y cyfnodau marchnata hyd at a chan gynnwys y cyfnod manwerthu.

(2) Rhai i'r datganiad gael ei ddyroddi gan y gweithgynhyrhydd neu gan werthwr sydd wedi ymsefydlu yn y Gymuned.

(3) Rhaid i weithgynhyrhydd neu fewnforiwr eitem geramig i'r Gymuned, pan ofynnir iddo, drefnu bod dogfennau priodol ar gael i awdurdod gorfodi sy'n dangos cydydffurfiaeth â gofynion rheoliad 3(1) gan gynnwys-

- (a) canlyniadau'r dadansoddi a wnaed,
- (b) amodau'r prawf, ac
- (c) enw a chyfeiriad y labordy a wnaeth gynnal y prawf, neu
- (ch) tystiolaeth na wnaeth y deunyddiau a ddefnyddiwyd i wneud yr eitem geramig ddod i gyffyrddiad â phlwm neu gadmiwm.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i eitem geramig sy'n ail-law.

Gorfodi

5. Yr awdurdodau canlynol sydd i weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn-

- (a) pob awdurdod bwyd yn ei ardal;
- (b) pob awdurdod iechyd porthladd yn ei ddosbarth.

Tramgwyddau a chosbau

6.-(1) Mae person sy'n mynd yn groes i ddarpariaeth yn rheoliadau 3(3) neu 4(1) neu (3) yn euog o dramgwydd.

(2) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan baragraff (1) uchod yn agored

- (a) ar gollfarn ar ddiad, i ddirwy neu gyfnod yn y carchar nad yw'n fwy na dwy flynedd, neu'r ddau; neu
- (b) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu gyfnod yn y carchar nad yw'n fwy na chwe mis, neu'r ddau.

(3) Mewn rheithdrefn am dramgwydd o ran methiant i gydymffurfio â rheoliad 4 mae'n amddiffyniad i brofi bod yr eitem geramig y mae'r tramgwydd yn ymwneud â hi wedi'i rhoi ar y farchnad gyntaf yn y Gymuned cyn 20 Mai 2007.

Declaration of Compliance

4.-(1) A manufacturer or seller of a ceramic article which is not yet in contact with food must provide a written declaration in accordance with Schedule 3 to accompany the article at the marketing stages up to and including the retail stage.

(2) The declaration must be issued by the manufacturer or by a seller established within the Community.

(3) The manufacturer or importer of a ceramic article into the Community must on request make available to an enforcement authority appropriate documentation to demonstrate compliance with the requirements of regulation 3(1) including-

- (a) the results of analysis carried out,
- (b) the test conditions, and
- (c) the name and address of the laboratory that performed the testing, or
- (d) evidence that the materials used to make the ceramic article did not contact lead or cadmium

(4) This regulation does not apply to a ceramic article which is second-hand.

Enforcement

5. The following authorities are to execute and enforce these Regulations-

- (a) each food authority in its area;
- (b) each port health authority in its district.

Offences and penalties

6.-(1) A person who contravenes a provision of regulations 3(3) or 4(1) or (3) is guilty of an offence

(2) A person guilty of an offence under paragraph (1) is liable

- (a) on conviction on indictment to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or to both; or
- (b) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum or to a term of imprisonment not exceeding 6 months or to both.

(3) In proceedings for an offence in respect of failure to comply with regulation 4 it is a defence to prove that the ceramic article to which the offence relates was first placed on the market in the Community before 20 May 2007.

Cymhwysio Deddf Diogelwch Bwyd 1990

7.-(1) Mae darpariaethau canlynol Deddf Diogelwch Bwyd 1990(1) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn, a dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn-

- (a) adran 20 (tramgwyddau sy'n codi oherwydd bai person arall);
- (b) adran 21(1), (5) a (6) (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy);
- (c) adran 33 (rhwystro swyddogion etc.);
- (ch) mae adran 34 o'r Ddeddf (terfyn amser ar gyfer erlyn) yn gymwys i dramgwyddau o dan reoliad 6 fel y mae'n gymwys i dramgwyddau y gellir eu cosbi o dan adran 35(2);
- (d) adran 35(1)(2), (2) a (3)(b) (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33 fel y'i cymhwysir gan y rheoliad hwn;
- (dd) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);
- (e) adran 36A(3) (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd);
- (f) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(4).

27 Mehefin 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Application of the Food Safety Act 1990

7.-(1) The following provisions of the Food Safety Act 1990(1) apply for the purposes of these Regulations, with reference in those provisions to the Act or a Part of it being construed as a reference to these Regulations-

- (a) section 20 (offences due to fault of another person);
- (b) section 21(1), (5) and (6) (defence of due diligence);
- (c) section 33 (obstruction etc of officers);
- (d) Section 34 of the Food Safety Act 1990 (time limit for prosecutions) applies to offences under regulations 6 as it applies to offences punishable under section 35(2).
- (e) section 35(1)(2), (2) and (3)(b) (punishment of offences) in so far as it relates to offences under section 33 as applied by this regulation;
- (f) section 36 (offences by bodies corporate);
- (g) section 36A(3) (offences by Scottish partnerships);
- (h) section 44 (protection of officers acting in good faith).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(4).

27 June 2006

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1990 p.16.

(2) Diwygiwyd adran 35(1) gan Atodlen 26 paragraff 42 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p.44) o ddyddiad sydd i'w bennu.

(3) Mewnosodwyd adran 52A gan Atodlen 5 paragraff 16 o Ddeddf Safonau Bwyd 1990.

(4) 1998 p.38.

(1) 1990 c.16.

(2) Section 35(1) is amended by Sch. 26 para. 42 of the Criminal Justice Act 2003 (c.44) from a date to be appointed.

(3) Section 36A was inserted by Sch. 5 para. 16 of the Food Standards Act 1990.

(4) 1998 c.38.

ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

Y MWYAFSYMIAU O BLWM A CHADMIWM Y CEIR EU TROSGLWYDDO O EITEM GERAMIG (TERFYNAU MUDO)

Rhaid i'r swm o blwm a/neu gadmiwm a echdynnir yn ystod y prawf a gyflawnir o dan yr amodau a osodir yn Rhannau 2 a 3 o Atodlen 2 beidio â mynd dros y terfynau canlynol:

	<i>Plwm</i>	<i>Cadmiwm</i>
Categori 1: eitemau na ellir eu llenwi ac eitemau y gellir eu llenwi, y mae eu dyfnder mewnol, wrth fesur o'r pwynt isaf i'r plân llorweddol sy'n mynd drwy'r ymyl uchaf, ddim mwy na 25 mm	0.8 mg/dm ²	0.07 mg/dm ²
Categori 2: Pob eitem arall y gellir ei llenwi	4.0 mg/l	0.3mg/l
Categori 3: Nwyddau coginio; llestri pecynnu a storio sy'n dal mwy na thri litr	1.5 mg/l	0.1 mg/l

Pan na fydd eitem geramig yn mynd dros y symiau uchod gan fwy na 50%, cydnabyddir er hynny bod yr eitem honno'n bodloni gofynion y Rheoliadau hyn os oes o leiaf dair eitem arall sy'n dwyn yr un siâp, dimensiynau, addurn a gwydr yn mynd drwy brawf a gyflawnir o dan yr amodau a osodir yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2 ac nad yw symiau cyfartalog y plwm a/neu'r cadmiwm a echdynnir o'r eitemau hynny yn mynd dros y terfynau a osodwyd, ac nad oes un o'r eitemau hynny'n mynd dros y terfynau hynny gan fwy na 50%.

Pan fydd eitem geramig yn llestr ag iddo glawr ceramig, rhaid i'r terfyn plwm a/neu gadmiwm na ddylid mynd drosto (mg/dm² neu mg/litr) fod yr un terfyn ag sy'n gymwys i'r llestr yn unig. Rhaid cynnal profion ar wahân ar y llestr yn unig ac ar arwyneb mewnol y clawr ac o dan yr un amodau; rhaid bod y berthynas rhwng cyfanswm y ddwy lefel echdyniad a geir o'r plwm a/neu gadmiwm yn berthynas briodol i'r arwynebedd neu gyfaint y llestr yn unig.

SCHEDULE 1

Regulation 3(1)

MAXIMUM QUANTITIES OF LEAD AND CADMIUM WHICH MAY BE TRANSFERRED FROM A CERAMIC ARTICLE (MIGRATION LIMITS)

The quantity of lead and/or cadmium extracted during the test carried out under the conditions laid down in Schedule 2 must not exceed the following limits:

	Lead	Cadmium
Category 1: articles which cannot be filled and articles which can be filled, the internal depth of which, measured from the lowest point to the horizontal plane passing through the upper rim, does not exceed 25 mm	0.8 mg/dm ²	0.07 mg/dm ²
Category 2: All other articles which can be filled	4.0 mg/l	0.3mg/l
Category 3: Cooking ware; packaging and storage vessels having a capacity of more than three litres	1.5 mg/l	0.1 mg/l

Where a ceramic article does not exceed the above quantities by more than 50%, that article will nevertheless be recognised as satisfying the requirements of these Regulations if at least three other articles with the same shape, dimensions, decoration and glaze are subjected to a test carried out under the conditions laid down in Schedule 2 and the average quantities of lead and/or cadmium extracted from those articles do not exceed the limits set, with none of those articles exceeding those limits by more than 50%.

Where a ceramic article consists of a vessel fitted with a ceramic lid, the lead and/or cadmium limit which may not be exceeded (mg/dm² or mg/litre) will be that which applies to the vessel alone. The vessel alone and the inner surface of the lid must be tested separately and under the same conditions; the sum of the two lead and/or cadmium extraction levels obtained must be related as appropriate to the surface area or the volume of the vessel alone.

RHAN I**PART I****RHEOLAU SYLFAENOL I BENDERFYNU
MUDIAD PLWM A CHADMIWM****BASIC RULES FOR DETERMINING THE
MIGRATION OF LEAD AND CADMIUM****Yr hylif prawf ("efelychyd")**

1. 4% (v/v) asid asetig, mewn toddiant o baratowyd yn ffres.

Amodau'r prawf

2-(1) cyflawni'r prawf ar dymheredd o $22 \pm 2^\circ$ am gyfnod o 24 ± 0.5 awr.

(2) Pan benderfynir mudiad plwm, rhodder gorchudd ar y sampl mewn modd priodol i'w ddiogelu a gadawer ef yn agored i'r amodau goleuo arferol sydd mewn labordy.

(3) Pan benderfynir mudiad cadmiwm neu blwm a chadmiwm, rhodder gorchudd ar y sampl i sicrhau bod yr arwyneb y mae profion i'w cynnal arno yn cael ei gadw mewn tywyllwch llwyr.

Llenwi**3-(1) Samplau y gellir eu llenwi**

- Llenwer yr eitem â 4% (v/v) o doddiant asid asetig at lefel nad yw'n uwch na 1mm o'r pwynt gorlifo; mesurir y pellter o ymyl uchaf y sampl.
- Dylid llenwi samplau gydag ymyl gwastad neu ymyl sy'n goleddfu fel nad yw'r pellter rhwng arwyneb yr hylif a'r pwynt gorlifo yn ddim mwy na 6mm wrth fesur ar hyd yr ymyl sy'n goleddfu.

(2) Samplau na ellir eu llenwi

Yn gyntaf, gorchuddir arwyneb y sampl na fwriedir iddo ddod i gyffyrddiad â bwydydd â haenen amddiffynnol sy'n gallu gwrthsefyll gweithrediad y 4% (v/v) toddiant asid asetig. Yna boddir y sampl mewn cynhwysydd sy'n cynnwys swm gwybyddus o doddiant asid asetig yn y fath fodd y bydd yr arwyneb y bwriedir iddo ddod i gyffyrddiad â'r bwydydd yn cael ei orchuddio'n llwyr gan yr hylif prawf.

Test liquid ("simulant")

1. 4% (v/v) acetic acid, in a freshly prepared aqueous solution.

Test conditions

2.-(1) Carry out the test at a temperature of $22 \pm 2^\circ$ for a duration of 24 ± 0.5 hours.

(2) When the migration of lead is to be determined, cover the sample by an appropriate means of protection and expose it to the usual lighting conditions in a laboratory.

(3) When the migration of cadmium or of lead and cadmium is to be determined, cover the sample so as to ensure that the surface to be tested is kept in total darkness.

Filling**3.-(1) Samples which can be filled-**

- Fill the article with a 4% (v/v) acetic acid solution to a level no more than 1mm from the overflow point; the distance is measured from the upper rim of the sample.
- Samples with a flat or slightly sloping rim should be filled so that the distance between the surface of the liquid and the overflow point is no more than 6mm measured along the sloping rim.

(2) Samples which cannot be filled

The surface of the sample which is not intended to come into contact with foodstuffs is first covered with a suitable protective layer able to resist the action of the 4% (v/v) acetic acid solution. The sample is then immersed in a receptacle containing a known volume of acetic acid solution in such a way that the surface intended to come into contact with the foodstuffs is completely covered by the test liquid.

Penderfynu arwynebedd yr arwyneb

4. Mae arwynebedd arwyneb yr eitemau yng nghategori 1 yn hafal i arwynebedd arwyneb y menisgws a ffurfir gan yr arwyneb hylif rhydd a geir wrth gydymffurfio â'r gofynion llenwi a osodir ym mharagraff 3.

RHAN 2

DULLIAU DADANSODDI AR GYFER PENDERFYNU MUDIAD PLWM A CHADMIWM

Amcan a maes cymhwyso

1. Mae'r dull yn caniatáu i'r mudiad penodedig o blwm a/neu gadmiwm gael ei benderfynu.

Egwyddor

2. Penderfynir y mudiad penodedig o blwm a/neu gadmiwm drwy ddull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn sy'n bodloni perfformiad meini prawf pwynt 4.

Adweithyddion

3-(1) Rhaid bod ansawdd dadansoddol i bob adweithydd, oni phennir fel arall.

(2) Os cyfeirir at ddŵr, bydd bob amser yn golygu dŵr a ddistyllwyd neu ddŵr o ansawdd cyfatebol.

(3) 4 % (v/v) asid asetig, mewn toddiant dyfrllyd; ychwaneger 40 ml o asid asetig ar ffurf rhew at ddŵr i wneud hyd at 1 000 ml.

(4) Toddiannau stoc: paratoer toddiannau stoc sy'n cynnwys 1 000 mg/litr o blwm ac o leiaf 500 mg/litr o gadmiwm yn eu trefn mewn 4 % o doddiant asid asetig, fel y cyfeirir ato yn is-baragraff (3).

Meini prawf perfformiad o'r dull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn

4-(1) Rhaid i'r terfyn canfod ar gyfer plwm a chadmiwm fod yn hafal i neu'n is na-

- 0,1 mg/litr ar gyfer plwm,
- 0,01 mg/litr ar gyfer cadmiwm.

Diffinnir y terfyn canfod fel y crynodiad o'r elfen yn y 4 % toddiant asid asetig, fel y cyfeirir ato ym mhwynt 3.1, sy'n rhoi signal sy'n hafal i ddwywaith sŵn cefndir yr offeryn.

Determination of the surface area

4. The surface area of the articles in category 1 is equal to the surface area of the meniscus formed by the free liquid surface obtained by complying with the filling requirements set out in paragraph 3.

PART 2

METHODS OF ANALYSIS FOR DETERMINATION OF THE MIGRATION OF LEAD AND CADMIUM

Object and field of application

1. The method allows the specific migration of lead and/or cadmium to be determined.

Principle

2. The determination of the specific migration of lead and/or cadmium is carried out by an instrumental method of analysis that fulfils the performance criteria of paragraph 4.

Reagents

3-(1) All reagents must be of analytical quality, unless otherwise specified.

(2) Where reference is made to water, it will always mean distilled water or water of equivalent quality.

(3) 4 % (v/v) acetic acid, in aqueous solution; add 40 ml of glacial acetic acid to water and make up to 1 000 ml.

(4) Stock solutions: prepare stock solutions containing 1 000 mg/litre of lead and at least 500 mg/litre of cadmium respectively in a 4 % acetic acid solution, as referred to in sub-paragraph (3).

Performance criteria of the instrumental method of analysis

4-(1) The detection limit for lead and cadmium must be equal to or lower than-

- (a) 0,1 mg/litre for lead,
- (b) 0,01 mg/litre for cadmium.

The detection limit is defined as the concentration of the element in the 4 % acetic acid solution, as referred to in paragraph 3(3), which gives a signal equal to twice the background noise of the instrument.

(2) Rhaid i'r terfyn meintioliad ar gyfer plwm a chadmiwm fod yn hafal i neu'n is na-

- (a) 0,2 mg/litr ar gyfer plwm,
- (b) 0,02 mg/litr ar gyfer cadmiwm.

(3) Adennill: rhaid i'r hyn a adenillir o blwm a chadmiwm a ychwanegwyd at y 4 % o doddiant asid asetig, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3(3), ddod o fewn 80-120 % o'r swm a ychwanegwyd.

(4) Penodolrwydd: rhaid i'r dull dadansoddi drwy gyfrwng offeryn a gaiff ei ddefnyddio fod yn rhydd o ymyriannau matrices ac ymyriannau rhithiol.

Dull

5.-(1) Paratoi'r sampl-

- (a) Rhaid i'r sampl fod yn lân ac yn rhydd o sailm neu fater arall sy'n debygol o effeithio ar y prawf;
- (b) Golcher y sampl mewn toddiant sy'n cynnwys sebon hylif yr aelwyd ar dymheredd o tua 40 °C. Rinsier y sampl yn gyntaf mewn dŵr tap ac yna mewn dŵr wedi'i ddistyllu neu ddŵr o ansawdd cyfatebol. Draenier y sampl a'i sychu i osgoi unrhyw staen. Ni ddylid trafod yr arwyneb sydd i'w brofi ar ôl iddo gael ei lanhau.

(2) Penderfynu plwm a/neu gadmiwm-

- (a) cynhelir prawf ar y sampl a gafodd ei baratoi yn y modd hwn o dan yr amodau a osodir yn Atodlen I;
- (b) cyn cymryd y toddiant prawf ar gyfer penderfynu plwm a/neu gadmiwm, homogoneiddier cynnwys y sampl drwy ddull priodol, sy'n osgoi unrhyw golli toddiant neu'n osgoi sgrafellu'r arwyneb sydd i gael ei brofi;
- (c) cynhalier prawf gwag ar yr adweithydd a ddefnyddir ar gyfer pob cyfres o benderfyniadau;
- (ch) cynhalier y penderfyniadau ar gyfer plwm a/neu gadmiwm o dan amodau priodol.

ATODLEN 3

Rheoliad 4

DATGANIAD O GYDYMFFURFIO

1-(1) Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn rheoliad 4(1) gynnwys yr wybodaeth ganlynol-

(2) enw a chyfeiriad y cwmni a weithgynhyrchodd yr eitem geramig orffenedig ac (os yw'n gynnwys) y

(2) The limit of quantification for lead and cadmium must be equal to or lower than-

- (a) 0,2 mg/litre for lead,
- (b) 0,02 mg/litre for cadmium.

(3) Recovery: the recovery of lead and cadmium added to the 4 % acetic acid solution, as referred to in paragraph 3(3), must lie within 80-120 % of the added amount.

(4) Specificity: the instrumental method of analysis used must be free from matrix and spectral interferences.

Method

5.-(1) Preparation of the sample-

- (a) the sample must be clean and free from grease or other matter likely to affect the test;
- (b) Wash the sample in a solution containing a household liquid detergent at a temperature of approximately 40 °C. Rinse the sample first in tap-water and then in distilled water or water of equivalent quality. Drain and dry so as to avoid any stain. The surface to be tested is not to be handled after it has been cleaned.

(2) Determination of lead and/or cadmium-

- (a) the sample thus prepared is tested under the conditions laid down in Schedule I;
- (b) before taking the test solution for determining lead and/or cadmium, homogenise the content of the sample by an appropriate method, which avoids any loss of solution or abrasion of the surface being tested;
- (c) carry out a blank test on the reagent used for each series of determinations;
- (d) carry out determinations for lead and/or cadmium under appropriate conditions.

SCHEDULE 3

Regulation 4

DECLARATION OF COMPLIANCE

1.-(1) The written declaration referred to in regulation 4(1) must contain the following information-

(2) the identity and address of the company which manufactured the finished ceramic article and (if

mewnforiwr a'i mewnforiodd i'r Gymuned;

(3) dynodi'r eitem geramig neu'r eitemau ceramig;

(4) dyddiad y datganiad;

(5) cadarnhad bod yr eitem geramig neu'r eitemau ceramig yn bodloni'r gofynion perthnasol:

(a) yn y rheoliad hwn; neu

(b) yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 84/500/EEC dyddiedig 15 Hydref 1984 ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaeth o ran eitemau ceramig y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwydydd(1) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2005/31/EC dyddiedig 29 Ebrill 2005(2); ac

(c) yn Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 27 Hydref ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwyd ac sy'n diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC a 92/65/EEC(3).

2. Bydd y datganiad ysgrifenedig yn caniatáu dynodi'n hawdd yr eitem y dyroddwyd ef ar ei chyfer neu'r eitemau y dyroddwyd ef ar eu cyfer a rhaid ei adnewyddu pan fydd newidiadau sylweddol yn y cynhyrchiant yn peri newidiadau ym mudiad plwm a chadmiwm.

applicable) of the importer who imports it or them into the Community;

(3) the identity of the ceramic article(s);

(4) the date of the declaration;

(5) confirmation that the ceramic article(s) meets the relevant requirements in:-

(a) these Regulations; or

(b) Council Directive 84/500/EEC of 15 October 1984 on the approximation of the laws of the Member States relating to ceramic articles intended to come into contact with foodstuffs(1) as amended by Commission Directive 2005/31/EC of 29 April 2005(2); and

(c) Regulation (EC) No 1935/2004 of the European Parliament and of the Council of 27 October on materials and articles intended to come into contact with food and repealing Directives 80/590/EEC and 89/109/EEC(3).

2. The written declaration will permit an easy identification of the article(s) for which it is issued and must be renewed when substantial changes in the production bring about changes in the migration of lead and cadmium.

(1) O.J. L277 ar 20.10.84 t.12.

(2) O.J. L110 ar 30.4.05 t.36.

(3) O.J. L338, 13/11/2004 t.4-14.

(1) O.J. L.277 of 20.10.84 p.12.

(2) O.J. L.110 of 30.4.05 p.36.

(3) O.J. L338, 13/11/2004 p.4-14.